**TEITL SWYDD: Cynorthwyydd Gwasanaethau Ymwelwyr x2**

**DISGRIFIAD SWYDD**

***Mae Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur yn chwilio am ddau unigolyn brwdfrydig i ymuno â'n tîm i sicrhau croeso cynnes ac addysgiadol i Ystrad Fflur. Dyma gyfle gwych i weithio ar safle Abaty Sistersaidd o'r 12fed Ganrif.***

*Mae Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur (YYF) yn gwmni elusennol a'i amcanion yw gwarchod treftadaeth hanesyddol a phensaernïol adeiladau Fferm Mynachlog Fawr yn Ystrad Fflur a hyrwyddo addysg y cyhoedd am Ystrad Fflur a'r dirwedd a threftadaeth o'i chwmpas. O 2025, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Cadw i groesawu ymwelwyr i Ystrad Fflur.*

**Teitl: Cynorthwyydd Gwasanaethau Ymwelwyr Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur Swydd Haf**
**Cyflog:** £25,000 pro rata
**Lleoliad:** Lleolir y rôl hon yn y ganolfan ymwelwyr, Abaty Ystrad Fflur.
**Hyd y Contract:** Rôl tymhorol tymor penodol o 6 wythnos o ddiwedd mis Gorffennaf tan ddechrau mis Medi.
**Oriau:** Rhan-amser. 15 – 22.5 awr yr wythnos i'w gytuno gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus. (Bydd y safle ar agor 7 diwrnod yr wythnos, gyda'r rôl wedi'i rhannu rhwng tri unigolyn. Ar gyfer y rôl hon, rydym yn chwilio'n arbennig am rywun a fydd yn gweithio dros gyfnod yr haf ochr yn ochr â'r aelodau eraill o'r staff).
**Yn adrodd i:** Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur (Carys Aldous-Hughes)

**Dyletswyddau Allweddol**

- Darparu croeso dwyieithog cynnes a chwrtais, gan nodi anghenion ymwelwyr a cheisio eu cynorthwyo i fwynhau eu hymweliad.
- Ymateb yn effeithiol i ymholiadau ymwelwyr am y safle, ei hanes, cyfleusterau, gwasanaethau ychwanegol (e.e. cyrsiau, digwyddiadau), Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur, Cadw a'r ardal leol.
- Annog ymwelwyr i gyfrannu a chefnogi gwaith Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur.
- Gweithredu fel bod y safle'n ddiogel, yn daclus ac yn hygyrch i ymwelwyr, gan gymryd rhan mewn archwiliadau safle dyddiol.
- Gweithio ochr yn ochr â thîm gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth i groesawu ymwelwyr.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr gyda archwiliadau iechyd a diogelwch, driliau tân a rhoi cymorth cyntaf os oes angen.
- Cefnogi cynllunio a chyflwyno cyrsiau, digwyddiadau ac ymweliadau.

- Gwerthu cofroddion, cyhoeddiadau a lluniaeth trwy ddulliau talu ag arian parod a cherdyn a sicrhau bod y siop wedi'i chyflwyno'n ddeniadol ac wedi'i stocio'n briodol.
- Sicrhau bod y ganolfan ymwelwyr yn lân ac yn daclus cyn e chloi ar ddiwedd y dydd.
- Agor a chloi'r safle a'r toiledau ar ddechrau ac ar ddiwedd pob dydd.
- Gweithio fel rhan o dîm gyda'r Cyfarwyddwr, Swyddogion Ymgysylltiad ac Allgymorth Treftadaeth, y Cynorthwyydd Gweinyddol a gwirfoddolwyr gyda gweithgareddau a phrosiectau ar y safle.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill sy'n codi.

**Manylebau**

| **Manyleb** | **Ein gofyn** | Status |
|---|---|---|
| Profiad | Profiad o weithio mewn rolau cyfarch ymwelwyr neu gwsmeriaid | Hanfodol |
| | Profiad o drin ag arian parod a thaliadau cerdyn | Dymunol |
| | Profiad o weithio o fewn y sector treftadaeth neu elusennol | Dymunol |
| Sgiliau a rhinweddau | Y gallu i gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg | Hanfodol |
| | Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm | Hanfodol |
| | Ymrwymiad i nodau ac amcanion YYF | Hanfodol |
| | Dibynadwy | Hanfodol |
| | Diddordeb mewn hanes a diwylliant Cymru | Dymunol |
| Arall | Llythrennedd TGCh | Dymunol |
| | | |

**Camau nesaf**

I wneud cais, anfonwch e-bost at Carys Aldous-Hughes (Cyfarwyddwr YYF), gan atodi CV llawn; dau eirda (nodwch a ydych yn fodlon i ni gysylltu â nhw cyn y cyfweliad); a dim mwy nag un ochr A4 yn disgrifio eich diddordeb yn y rôl.

Y dyddiad cau yw **hanner dydd, dydd Llun 16 Chwefror 2026**. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Carys Aldous-Hughes yn carys.aldous-hughes@strataflorida.org.uk

Cynhelir cyfweliadau yn yr wythnos yn dechrau **23 Chwefror 2026** (dywedwch wrthym os bydd hyn yn anodd i chi). Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ar ddydd **Llun 20 Gorffennaf 2026**.

Ariennir y rolau hyn drwy grant gan Cadw.

STRATA FLORIDA
YSTRAD FFLUR

Cadw